**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Menter a Busnes
—
**National Assembly for Wales**
Enterprise and Business Committee

Jocelyn Davies
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

9 Rhagfyr 2015

Annwyl Jocelyn,

**Etifeddiaeth y Pwyllgor Cyllid – proses y Gyllideb a chraffu ariannol ar ddeddfwriaeth**

Diolch yn fawr am eich llythyr dyddiedig 17 Tachwedd yn gofyn am adborth ar effeithiolrwydd dull cyffredinol y Pwyllgor Menter a Busnes o graffu ar y gyllideb. Fe'i trafodwyd gan y Pwyllgor Menter a Busnes yn ein cyfarfod ar 9 Rhagfyr.

**Amserlen y Gyllideb**

Nodwyd gan Aelodau'r Pwyllgor o’r blaen nad yw proses bresennol y Cynulliad – fel y'i nodir yn y Rheolau Sefydlog – yn caniatáu digon o amser ar gyfer ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid sy'n seiliedig ar ddadansoddiad trylwyr o'r manylion a'u bwydo yn ôl i'r Pwyllgor Cyllid.

Wrth i newidiadau i broses gyllideb y Cynulliad fynd rhagddynt, ein gobaith yw y bydd amser ychwanegol yn cael ei neilltuo i bwyllgorau pwnc ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch testunau pryder, ac i hyn ddigwydd fel y gallwn gyfrannu at ystyriaeth ehangach y Pwyllgor Cyllid o'r gyllideb ddrafft.

**Gwybodaeth Gyllidebol**

Mae ansawdd y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru’n ei rhoi ar gael i bwyllgorau graffu ar y gyllideb ddrafft wedi cynyddu yn neilltuol yn ystod y Cynulliad hwn. Gobaith y pwyllgor yw y bydd y broses hon o wella parhaus – sy'n ein galluogi i asesu ystyriaethau gwerth am arian yn haws, ac a yw prosiectau yn darparu'r canlyniadau a fwriadwyd – yn cael ei chynnal.

Fodd bynnag, mae diffyg cysondeb rhwng adrannau o ran cynllun y gyllideb o hyd.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddBusnes@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEcon@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddEcon
0300 200 6565

**Craffu Ariannol ar Ddeddfwriaeth**

Un Bil yn unig y mae aelodau’r Pwyllgor hwn wedi craffu arno yn ystod y Cynulliad hwn, sef Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Ym mis Ionawr 2016, bydd y Pwyllgor yn siarad â rhanddeiliaid ac yn craffu ar waith y Gweinidog ynghylch unrhyw gynnydd a wnaed ers i'r Ddeddf ddod i rym. Bydd hyn yn cynnwys craffu ar a gadarnhawyd yr amcangyfrifon o effaith ariannol y Bil. Ysgrifennaf atoch eto os daw sylwadau pellach i law ar ôl y gwaith hwnnw.

William Graham

Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes